# Maniffesto Gweithredu dros yr Hinsawdd, Gôl-geidwaid Byd-eang Sir Gaerfyrddin

Crëwyd y maniffesto hwn ar gyfer Nod Datblygu Cynaliadwy 13 Gweithredu dros yr Hinsawdd gan Gôl-geidwaid Byd-eang Sir Gaerfyrddin trwy'r prosiect Walk the Global Walk. Daethpwyd i'w argymhellion trwy drafodaethau â Gôl-geidwaid Byd-eang o wledydd partner, cynghorwyr a swyddogion o Gyngor Sir Gaerfyrddin, athrawon, cynrychiolwyr o'r Cyngor Ieuenctid, Dolen Cymru Lesotho a Chadw Cymru'n Daclus. Rydym ni, y rhai sydd wedi llofnodi isod ac sy'n cynrychioli pobl ifanc Sir Gaerfyrddin, wedi dod yn ymwybodol iawn o'r peryglon i'n cenhedlaeth ni ac i genedlaethau'r dyfodol a achosir gan ddiffyg gweithredu yn wyneb newid yn yr hinsawdd.

Mae'r argyfwng hinsawdd eisoes yn effeithio ar filiynau ledled y byd, gan daro'r rhai sydd â'r adnoddau lleiaf i ddelio ag ef yn galetaf. Rydym yn gwneud newidiadau i'n ffordd o fyw fel unigolion ac yn arwain gweithredoedd yn ein hysgolion a'n cymunedau i addasu i newid yn yr hinsawdd a'i liniaru. Fodd bynnag, os am gael effaith ystyrlon, ni allwn wneud hyn ar ein pennau ein hunain. Felly gofynnwn i Gyngor Sir Gaerfyrddin addo ei ymrwymiad i weithredu dros yr hinsawdd trwy:

1. **Hyrwyddo datblygiad mannau gwyrdd a chefnogi plannu rhywogaethau o goed brodorol, o leiaf 10 coeden ym mhob ysgol, neu gymuned ysgol os nad yw tir yr ysgol yn addas, a sicrhau eu diogelwch parhaol**
2. **Annog a chefnogi trafnidiaeth ddiogel a chynaliadwy ar gyfer ysgolion gan gynnwys rhannu ceir, cerdded a beicio e.e. darparu llochesi beic.**
3. **Sefydlu corff ymgynghori ar weithredu dros yr hinsawdd sy'n cynnwys grŵp cynrychiadol o bobl ifanc, cynghorwyr, swyddogion cyngor a busnesau lleol sy'n cyfarfod bob 3 mis i sicrhau cynnydd ar y maniffesto hwn**
4. **Darparu cefnogaeth i wledydd datblygol i frwydro yn erbyn effaith newid yn yr hinsawdd e.e. trwy gefnogi menter Maint Cymru**
5. **Cefnogi creu gerddi mewn ysgolion a chymunedau lleol i ddarparu bwyd ac annog bioamrywiaeth e.e. darparu hadau a gwrtaith heb fawn**
6. **Dyblu defnydd y cyngor o gerbydau hybrid a thrydan a gosod pwyntiau gwefru trydan mewn ysgolion cynradd ac uwchradd priodol erbyn Ionawr 2022**
7. **Cydweithio ag ysgolion a chyflenwyr i leihau'r defnydd o blastig un defnydd mewn ysgolion erbyn Ionawr 2022**
8. **Sicrhau bod gan bobl ifanc y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i gyflawni gweithredoedd hinsawdd perthnasol**



*Sophia Kwan, Coedcae School*

# Carmarthenshire Global Goalkeepers Climate Action Manifesto

This manifesto for Sustainable Development Goal 13 Climate Action was created by Carmarthenshire's Global Goalkeepers through the Walk the Global Walk project. Its recommendations were arrived at through discussions with Global Goalkeepers from partner countries, councillors and council officers from Carmarthenshire County Council, teachers, representatives from the Youth Council, Dolen Cymru Lesotho and Keep Wales Tidy.

We, the undersigned, representing the young people of Carmarthenshire, have become acutely aware of the dangers to our own generation and to future generations posed by inaction in the face of climate change. The climate emergency is already affecting millions around the world, hitting hardest those with the least resources to deal with it.

We are making lifestyle changes as individuals and leading actions in our schools and communities to adapt to and mitigate climate change. However, if there is to be a meaningful impact, we cannot do this alone. So we ask that Carmarthenshire County Council pledge its commitment to climate action by:

1. **Promote development of green spaces and support native tree species planting of a minimum of 10 trees in each school, or school community if school grounds are unsuitable, and ensure their ongoing protection**
2. **Encourage and support safe, sustainable school transport including car-pooling, walking and cycling e.g. providing bike shelters**
3. **Set up a climate action consultation body consisting of a representative group of young people, councillors, council officers, and local businesses which meets every 3 months to ensure progress on this manifesto**
4. **Provide support for developing countries to combat impact of climate change e.g. by supporting the Size of Wales initiative**
5. **Support the development of gardens in schools and local communities to provide food and encourage biodiversity e.g. provide seeds and peat-free compost**
6. **Double the council's use of hybrid and electric vehicles and install electric charging points in appropriate primary and secondary schools by January 2022**
7. **Work together with schools and suppliers to reduce single use plastic in schools by January 2022**
8. **Ensure young people have the support they need to carry out relevant climate actions**

**Wedi ei gymeradwyo gan gynrychiolwyr o Gyngor Sir Gaerfyrddin ac o Gyrff Anllywodraethol: | Endorsed by representatives of Carmarthenshire County Council and NGOs:**

• Gareth Morgans - *Director of Education* • Cefin Campbell - *Executive Board Member for Communities and Rural Affairs* • Kendal Davies - *Sustainability Manager* • Rebecca Stone - *Carbon Reduction Officer* • Polly Seton - *International School Linking Officer* • Bethan Evans Phillips - *Eco Schools Officer, Keep Wales Tidy* • Mandy Ballett & Sharon Flint - *Education Officers, Dolen Cymru Lesotho*

**Wedi ei lofnodi gan Gôl-geidwaid Byd-eang ac Athrawon o: | Signed by Global Goalkeepers and Teachers from:**

| Ysgol Dyffryn Aman | Ysgol Bro Dinefwr | Coedcae School | Ysgol Glan-y-Môr | Ysgol Gyfun Y Strade |
|---|---|---|---|---|
| *Sam Barrett<br>Magda Smith<br>Gareth Holmes (Teacher)* | *Milly Jones<br>Isabel Edwards<br>Carol Owen (Teacher)* | *Lily Evans, Chloe Barlow,<br>Rhys Thomas, Sophia Kwan<br>Victoria Colbourne (Teacher)* | *Liberty Brown<br>Thomas Ashby<br>Sophie Bowen (Teacher)* | *Ieuan Davies<br>Katie George<br>Sion Acciaioli (Teacher)* |

**Queen Elizabeth High School** - *Arwen Skinner, Carmarthenshire Youth Council*

WALK #walktheglobalwalk

Dolen Cymru •Wales Lesotho Link•

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council